# A Day in the Life of a Playworker

## A Day in the Life of A Playworker: meet Sam Gocher

Mittle Disciples Childcare based in Penymynydd, Flintshire. Our setting provides a breakfast club, wrap around care, after school club and holiday club for children from 3-11 years of age.

When I was a child, I always enjoyed riding my bike around the lanes in our village with my friends and playing in the local park. I always knew from a young age I wanted to work with children. Seeing the children achieve, have fun, and share their ideas always puts a smile on everyone's face!

Play is so important for children and young people as it provides a foundation for their social skills, promotes their imagination and creativity, and is essential for their physical and emotional wellbeing. I absolutely love observing children utilise loose parts resources to enrich their play opportunities indoors and outdoors.

In our setting, we pride ourselves on providing excellent wellbeing opportunities for children. Providing activities and opportunities to chat about the children's wellbeing, allows them to express themselves, build resilience and cope with challenges to support their mental wellbeing.

On a typical day, as soon as I arrive at our setting, I work with staff to ensure that the play space is set up as a safe and stimulating place to optimise the children's play, also ensuring that daily risk assessments are completed. We then welcome our children into the hall, complete the register and talk about what indoor and outdoor play opportunities and activities the children would like to access.

During the session, we ensure that we support the children in their play and respond to any play cues. We also respond to any questions and provide additional resources to enhance their play experiences.

# A Day in the Life of a Playworker

## A Day in the Life of A Playworker: meet Sam Gocher

When children are collected, we communicate with parents/carers, providing feedback about the child's day, any important messages and their achievements. At the end of the play session, we always evaluate and reflect on the activities provided and free play opportunities, taking into consideration feedback from children. We also make sure the setting is clean and ready for the next day.

I have been working in the playwork sector for 15 years and I started my career working in a primary school. I was asked if I would like to apply for a job as a relief playworker and was successful. This role became permanent and I grasped opportunities to access qualifications, firstly achieving a Level 2 in Childcare, Learning and Development and then a Level 3 in Playwork. This enhanced my practice and also allowed me to further develop my career prospects. I became a manager 9 years ago.

My career advice would be to have fun, play, and laugh with the children. Working in the playwork sector is really rewarding, fun and uplifting.

# Diwrnod ym mywyd Gweithiwr Chwarae

## Diwrnod ym Mywyd Gweithiwr Chwarae: dyma Sam Gocher

Fy enw i yw Sam a fi yw Rheolwr Little Disciples Childcare ym Mhenymynydd, Sir y Fflint. Mae ein lleoliad yn darparu clwb brecwast, gofal cofleidiol, clwb ôl-ysgol a chlwb gwyliau i blant 3-11 oed.

Pan oeddwn yn blentyn, roeddwn bob amser yn mwynhau reidio fy meic o amgylch y lonydd bychain yn ein pentref gyda'm ffrindiau, a chwarae yn y parc lleol. Roeddwn ar hyd yr adeg, o oedran ifanc, yn gwybod fy mod eisiau gweithio gyda phlant. Mae gweld y plant yn cyflawni, yn cael hwyl, ac yn rhannu eu syniadau bob amser yn rhoi gwên ar wyneb pawb!

Mae chwarae mor bwysig i blant a phobl ifanc gan ei fod yn darparu sylfaen ar gyfer eu sgiliau cymdeithasol, yn hybu eu dychymyg a'u creadigrwydd, ac mae'n hanfodol ar gyfer eu lles corfforol ac emosiynol. Rwyf wrth fy modd yn arsylwi ar blant yn defnyddio adnoddau rhannau rhydd i gyfoethogi eu cyfleoedd chwarae dan do ac yn yr awyr agored.

Yn ein lleoliad ni, rydym yn ymfalchïo mewn darparu cyfleoedd rhagorol o ran llesiant i'r plant. Mae darparu gweithgareddau a chyfleoedd i sgwrsio am lesiant y plant yn eu galluogi i fynegi eu hunain, i feithrin gwytnwch ac ymdopi â heriau i gefnogi eu lles meddyliol.

Ar ddiwrnod arferol, cyn gynted ag y byddaf yn cyrraedd ein lleoliad, rwy'n gweithio gyda'r staff i sicrhau bod y man chwarae yn cael ei sefydlu fel lle diogel ac ysgogol i wneud y gorau o chwarae'r plant, ac yn sicrhau hefyd bod yr asesiadau risg dyddiol yn cael eu cwblhau. Yna byddwn yn croesawu ein plant i'r neuadd, yn llenwi'r gofrestr ac yn siarad am ba gyfleoedd a gweithgareddau chwarae dan do ac awyr agored yr hoffai'r plant fanteisio arnynt.

Yn ystod y sesiwn, rydym yn sicrhau ein bod yn cefnogi'r plant yn eu chwarae ac yn ymateb i unrhyw giwiau chwarae. Rydym hefyd yn ymateb i unrhyw gwestiynau ac yn darparu adnoddau ychwanegol i gyfoethogi eu profiadau chwarae.

# Diwrnod ym mywyd Gweithiwr Chwarae

## Diwrnod ym Mywyd Gweithiwr Chwarae: dyma Sam Gocher

Pan fydd plant yn cael eu casglu, rydym yn cyfathrebu â rhieni/gofalwyr, gan roi adborth am ddiwrnod y plentyn, unrhyw negeseuon pwysig, a chyflawniadau'r plant. Ar ddiwedd y sesiwn chwarae, rydym bob amser yn gwerthuso ac yn adfyfyrio ar y gweithgareddau a ddarperir a chyfleoedd chwarae rhydd, ac yn ystyried adborth y plant. Rydym hefyd yn sicrhau bod y lleoliad yn lân ac yn barod ar gyfer y diwrnod canlynol.

Rwyf wedi bod yn gweithio yn y sector gwaith chwarae ers 15 mlynedd, ac fe wnes i ddechrau fy ngyrfa yn gweithio mewn ysgol gynradd. Gofynnwyd i mi a hoffwn wneud cais am swydd fel gweithiwr chwarae wrth gefn, a llwyddais i gael y swydd. Daeth y rôl hon yn barhaol a manteisiais ar gyfleoedd i gael cymwysterau, yn gyntaf ennill Lefel 2 mewn Gofal, Dysg a Datblygiad Plant ac yna Lefel 3 mewn Gwaith Chwarae. Fe wnaeth hyn wella fy ymarfer a hefyd fy ngalluogi i ddatblygu fy rhagolygon gyrfa ymhellach. Deuthum yn rheolwr 9 mlynedd yn ôl.

Fy nghyngor gyrfa i fyddai i gael hwyl, chwarae a chwerthin gyda'r plant. Mae gweithio yn y sector gwaith chwarae yn rhoi boddhad mawr, mae'n hwyl ac yn eich calonogi.